

CADWALADR, ROGER (1566 - 1610), offeiriad Seminaraidd a merthyr

Enw: Roger Cadwaladr

Dyddiad geni: 1566

Dyddiad marw: 1610

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: offeiriad Seminaraid a merthyr

Maes gweithgaredd: Crefydd

Awdur: John Martin Cleary

Ganwyd yn Stretton Sugwas, sir Henffordd. Ymaelododd yn athrofa Reims yn 1590, ac urddwyd ef yn offeiriad yn Valladolid yn 1593. Gororau De Cymru oedd maes ei genhadaeth a ducwyd ef oddi yno i garchar yn 1610. Buasai'n bleidiol i'r Offeiriad 'Appellant', 1600-03, ac yn wrthwynebol i'r gweddill o'r clergiwyr a'r Jesiwigiaid, ond yn ddiweddarach newidiodd ei syniadau, ac ymwelwyd ag ef yn y carchar y dydd y condemniwyd ef i farwolaeth, gan y [Tad Robert Jones](#) pennaeith y Jesiwigiaid yn Lloegr. [Y Tad Jones](#) a ysgrifennodd, mewn Eidaleg, hanes ei ddienyddiad yn Leominster, 27 Awst 1610.

Awdur

John Martin Cleary

Ffynonellau

Catholic Record Society, xxv, 22

Foley, *Records of the English province of the Society of Jesus (1570-1800)*, iv, 389-391

Challoner, *Memoirs of Missionary Priests, &c; and of other Catholics, &c; that have suffered death in England, on religious accounts, from c. 1577 to 1684* (arg. 1924), 299-306

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Roger Cadwallader](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [19547882](#)

Wikidata: [Q7357942](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Cleary, J. M., (1970). CADWALADR, ROGER (1566 - 1610), offeiriad Seminaraidd a merthyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-CADW-ROG-1566>

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nosbarwr
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government